

TAR Uwchradd Cymraeg Tasgau i'w gwneud cyn y cwrs

Helo, bawb! Llongyfarchiadau mawr ar ennill lle yn y cwrs TAR Cymraeg Uwchradd! Edrychwn ymlaen at eich gweld ym mis Medi, yn barod am gyfnod newydd yn eich gyrfa.

Er mwyn dechrau paratoi am y flwyddyn brysur, heriol a chyffrous sydd o'ch blaen, gofynnir i chi gwblhau'r tasgau canlynol cyn diwedd mis Awst. Byddant yn darparu man cychwyn da gyda rhai o'r wybodaeth a sgiliau fydd angen i chi eu datblygu wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen.

CYSWLLT Â'R IAITH

Gweithiwch ar eich sgiliau iaith trwy siarad, gwrando, gwylio, darllen ac ysgrifennu cymaint â phosib yn y Gymraeg.

GWAITH IAITH

Adolygwch eich gramadeg trwy weithio ar rai o'r ymarferion iaith trwy un o'r dolenni isod:

<https://hwb.wales.gov.uk/cms/hwbcontent/Shared%20Documents/vtc/2010-11/welsh/irf10-00/gramadeg/index.html>

<https://hwb.wales.gov.uk/cms/hwbcontent/Shared%20Documents/vtc/2009-10/welsh/irf09-30/index.html>

<https://hwb.wales.gov.uk/cms/hwbcontent/Shared%20Documents/vtc/ngfl/welsh/127/index.html>

Gallwch hefyd gofrestru gyda llyfrgell y Porth i fynedu rhagor o adnoddau iaith defnyddiol.

Chwiliwch ar wefan CBAC am gyn-bapurau. Argraffwch gopïau a rhowch dro arnynt eich hunan er mwyn gwirio'ch wybodaeth o TGAU a Safon Uwch / Uwch Gyfrannol Cymraeg a Cymraeg ail iaith. Wrth i chi weithio trwy'r papurau - y rhai TGAU yn enwedig, meddyliwch am, a nodwch rai camsyniadau rydych yn meddwl y gallai dysgwyr Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 eu gwneud gyda rhai o'r cwestiynau. Dewch â'ch papurau a'ch syniadau gyda chi ym mis Medi.

Gwnewch ychydig o ddarllen cefndirol

Darllenwch ddogfennau Llywodraeth Cymru:

- Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru

<http://dysgu.llyw.cymru/docs/learningwales/publications/150717-nc-welsh-cy-v2.pdf>

<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/111025welshcy.pdf>

- Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/nlnf/?skip=1&lang=cy>

- Fframwaith Cymhwysedd Digidol

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/digital-competence-framework/?lang=cy>

- Dyfodol Llwyddiannus – y cwricwlwm newydd

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>

Arsylwch ar dipyn o addysgu Cymraeg a/neu Cymraeg ail iaith

Os yn bosib, ceisiwch gael mwy o brofiad trwy arsylwi neu gefnogi mewn ysgol uwchradd. Canolbwyntiwch ar sut mae dysgwyr yn rhngweithio gyda'i gilydd a gyda'r athro a sut y rheolir y dysgu. Bydd unrhyw brofiad a gewch yn werthfawr iawn, gyda dosbarthiadau da a rhai mwy heriol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gyd ym mis Medi!

Cyfarfod Cymraeg! Yn olaf, rydym yn cynnwys llythyr yn eich gwahodd i gyfarfod cyfarch ar gyfer y myfyrwyr Cymraeg a chyfrwng Cymraeg i gyd - Mehefin 21, 2019, 10.00-1.00, yma yng nghampws Cyncoed. Cyfle i gwrdd â chyd-fyfyrwyr a dechrau meddwl am y cwrs Cymraeg. Mae angen cysylltu ag Admission i gadw lle, felly gwnewch hyn mor fuan â phosibl!

Yn edrych ymlaen at eich gweld yn fuan, ac os oes cwestiynau gyda chi yn y cyfamser, cysylltwch nol yn syth.

Gyda phob dymuniad am wyliau da cyn y gwaith mawr ym mis Medi, ac edrychwn ymlaen at eich gweld yn y cyfarfod Cymraeg, Mehefin 21!

Dr. Gina Morgan gmorgan@cardiffmet.ac.uk; 02920 417251

Dr Ashley Beard abeard@cardiffmet.ac.uk; 02920 201147.